# Cofnodion Cyfarfod 6/4/2023

Y Maer Rhys Evans, Jacqueline Allen, Dilys Evans, Fiona Hopkins, Eluned Jones, Sion McGuinness, Tony Parry, John C Williams

Dilwyn Morgan, Cyngor Gwynedd

Lis Puw *(Clerc)*.

1. **Croesawyd** pawb gan y Maer a ymfalchïodd unwaith eto yn rhagoriaethau niferus gwahanol glybiau chwaraeon yn y dref.

   Mae NMWTRA wedi tocio rhai o goed y Stryd Fawr, a mynegwyd diolch am y gwaith hwn; mae dwy nyth bran wedi ymddangos ar y goeden wrth gerflun Tom Ellis ac felly nid oedd yn bosib gwneud llawer i'r goeden hon am flwyddyn eto.

   Agorwyd y llwybr ar lan y llyn ddiwedd mis Mawrth a llongyfarchwyd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r contractwyr William Hughes a phawb arall a wnaeth y gwaith. Bu dwy flynedd o waith caled i gryfhau'r arglawdd, creu'r llwybr hwn a'r llwybrau ar lan y Ddyfrdwy ac afon Tryweryn, ac mae'r canlyniad yn gaffaeliad mawr i'r dref.

   Llongyfarchodd pawb a fu'n llwyddiannus yn eisteddfodau'r Urdd yn ddiweddar a dymunodd pob llwyddiant yn yr Eisteddfod genedlaethol yn Llanymddyfri.

   **Derbyniwyd ymddiheuriadau** Y Dirprwy Faer Eifion Roberts, Clare Mackintosh, Moira Mai, Eric Williams.

2. **Buddiant:** Derbyniwyd datganiad buddiant gan Jackie Allen ym mater 10i ar yr Agenda, sef cais cynllunio NP5/53/600.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 2/3/23.

4. **Materion y Clerc:**

   i. Atgoffwyd yr aelodau am Plains Rally 22/5/23

   ii. Ateb i ohebiaeth am garthffosiaeth gan Steve Wesley o Dŵr Cymru; diolchwyd i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan am sicrhau caniatâd i gau'r ffordd am gyfnod pellach er mwyn i'r gwaith gael ei gwblhau. Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am y ffos ac mae asiantaethau eraill yn cyd-weithio ar y broblem.

   Rhannwyd gwahoddiad i'r Cynghorwyr ymweld a'r safle trin gwastraff yn Y Bala am 1.00pm ar 24/4/23. Bwriedir gwario £6miliwn ar uwchraddio'r safle. Soniwyd fod llawer o'r problemau yn deillio o Lanuwchllyn a holwyd a ydyw'n fwriad cynnwys yr ardal honno yn yr uwchraddiad.

iii. Toiledau'r Grin: bu trafferthion pellach ond erbyn hyn maent ar agor.

iv. Nodwyd derbyn ateb i ohebiaeth am gau siop elusen yn y dref.

v. Darllenwyd y rhestr o ddiolchiadau am gyfraniadau ariannol. Daeth cais hwyr oddi wrth Eisteddfod Llangollen ond cytunwyd ei fod yn rhy hwyr i'w ystyried.

vi. Dogfennau: rhannodd y Clerc ddogfennau a llun yr oedd wedi eu derbyn yn dilyn marwolaeth y cyn-Gynghorydd Evan Dobson. Yn eu plith roedd cyfieithiad o siarter Edward II yn 1324 yn rhoi'r hawl i dref Y Bala fod yn fwrdeistref. Bydd yn ben-blwydd 700 mlynedd y flwyddyn nesaf. Yn ddifyr, mae'n enwi dyddiadau'r Ffair – sydd wedi goroesi. Cytunwyd i ledaenu'r wybodaeth i'r ysgol, i'r grŵp hanes, i Cantref ac i'r cyfryngau a'i drafod eto yn y cyfarfodydd nesaf. Dywedodd Jackie Allen y gellid defnyddio arian sydd ar ôl o Visit Bala i hyrwyddo hyn. Awgrymwyd ffair arbennig y flwyddyn nesaf.

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd a gyfeiriodd at 20mya a fydd yn dod i rym ar 17/9/23. Mae cais wedi ei wneud gan Cyngor Gwynedd i Lywodraeth Cymru am grant o £280,000 ar gyfer creu llwybr cerdded a beic diogel i'r ysgol. Ymddengys na fydd cais y Rheilffordd yn cael ei ganiatáu yn bennaf oherwydd gormodedd o ffosffadau.

6. **Adroddiad** o gyfarfod gyda'r Heddlu 10/3/23 gyda chynghorwyr a'r Clerc yn bresennol: trafodwyd trefniadau ar gyfer yr haf, yn arbennig parcio anghyfrifol. Prin ydyw adnoddau dynol yr Heddlu, a gwnaethant gais i'r Cyngor ystyried gosod camera cylch cyfyng yn ardal y Frigâd Dân gan y byddai'n ddefnyddiol i sylwi ar bedair ffordd. Roedd yr heddlu o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i leihau troseddu gwledig yn ogystal a monitro pwy sy'n ymweld a'r dref. Cafwyd trafodaeth ar briodoldeb y Cyngor yn gosod a monitro camera o'r fath; mae'r Clerc wedi holi'r Heddlu am brisiau ac am goblygiadau gwarchod data. Cynigwyd trafod y mater gyda Partneriaeth Penllyn.

   Cyfarfod Zoom gyda'r Heddlu a Parc Cenedlaethol Eryri gyda'r Maer a Tony Parry ac Eifion Roberts yn cynrychioli'r Bala. Adroddodd y Maer nad oes lawer y gall y Parc ei wneud am y sbwriel ac nad oes cyllid i gyflogi mwy o staff. Mae'r paratoadau ar gyfer problemau wedi cael eu gwneud gan y Parc yn cynnwys astudiaeth i atal parcio dros nos wrth y llyn. Yr awgrymiadau o dan ystyriaeth yw Giât i'w chloi bob nos, rhwystr yn atal faniau cysgu, a chwmni preifat yn defnyddio APNR i fonitro parcio. Nid ydyw'r dewis wedi ei wneud eto. Nid oedd maes parcio wrth y Clwb Rygbi wedi ei gynnwys yn yr astudiaeth. Mae "Clirffordd" yn debygol o gael ei wneud ar ffordd Llangywer. Roedd cydnabyddiaeth fod y broblem yn fwy heriol ym Mhenllyn nag yn Ogwen. Mae pwerau symud cerbydau neu roi tocynnau yn disgyn ar Gyngor Gwynedd .

**Croesawyd Mabon ap Gwynfor** i'r cyfarfod a rhoddodd trosolwg o'i waith. Roedd yn falch iawn o'r cyfle i fynychu cyfarfodydd cynghorau gan ei fod yn fodd i glywed beth sy'n poeni pobl ar lawr gwlad.

- **Tai:** tua 40% o'i waith. Mae digartrefedd yn yr ardal hon fel pob man arall, er efallai ddim yn weladwy megis cysgu ar y stryd. Mae trais domestig ar gynnydd ers Covid ac mae hyn yn arwain at yr angen am fwy o gartrefi dwy lofft a llety tymor byr.

- **Iechyd** yw 40% o'i waith sy'n dod i'w ran. Mae hwn wedi cyffwrdd bron pob un person – achos un o'r Bala wedi aros 20 awr am ambiwlans a 9 awr tu allan i'r ysbyty (a dim bai ar y staff). Prinder Gofalwyr yn allweddol. Y tristwch yw bod pobl wedi rhagweld yr argyfwng ers 20 mlynedd. Mae prinder meddygon teulu yn taro ar ardal de Meirionnydd; rhoddodd rhag-rybudd fod nifer fawr yn bwriadu ymddeol ac efallai mai dim ond 2 meddyg teulu yn unig fydd ar gael i'r de o Drawsfynydd. Mae wedi bod yn trafod gyda'r Bwrdd Iechyd sydd yn cychwyn ar y gwaith o geisio cael locums a meddygon teulu mewn lle.
- **Pob peth arall 20% -** gan gynnwys y broblem ffosffadau ac roedd yn falch fod buddsoddiad yn cael ei wneud o'r diwedd mewn carthffosiaeth. Mae'n derbyn 1500 o e-byst yr wythnos ac mae'n ymdrechu i ateb y rhain o fewn y mis. Mae nifer o'r problemau yn rhai cymhleth iawn.

**Diolchodd y Maer** i'r Aelod a dywedodd fod y Bala yn dymuno bod yn dref aml-gyfeillgar, a rhoddodd wybodaeth i'r Aelod y bydd siarter y bwrdeistref yn 700 oed yn 2024. Tynnodd Cynghorydd ei sylw at brinder pysgod yn yr afonydd lleol erbyn hyn.

7. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd Adroddiad olaf Tony Parry ar brosiect arglawdd Llyn Tegid. Bu'n cyfathrebu ar y mater am dros dwy flynedd a diolchwyd iddo am gynrychioli'r Cyngor mewn nifer lawer o gyfarfodydd. Dywedodd ei fod yn falch iawn o'r llwybr newydd a agorwyd ar 31/3/23. Derbyniodd y Cyngor nifer o luniau o'r safle ar gychwyn y gwaith.

8. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiad is-bwyllgorau:

    i. Asedau – mae dwy fainc arall wedi dod i'r golwg ac mae John Caradog Williams yng ngofal eu gosod.
    ii. Bioamrywiaeth – rhoddodd Fiona Hopkins a Jackie Allen gyflwyniad *powerpoint* o'r Cynllun Bioamrywiaeth. Cytunwyd i'w anfon ymlaen at y Llywodraeth unwaith y bydd y fersiwn Gymraeg wedi dod i law. Diolchwyd yn fawr i'r is-bwyllgor am eu gwaith. Bydd yr is-bwyllgor yn edrych mewn i fater plannu coed yn y dref. Cytunwyd yn unfrydol fod Cyngor Tref Y Bala yn **Datgan Argyfwng Natur ac Hinsawdd.**
    iii. Cyllid - derbyniodd y Clerc Adroddiad yr Archwilydd Allanol am 2021-22. Mae'r Clerc wedi anfon am esboniad ar rai pwyntiau aneglur ond nid oes ateb wedi dod hyd yn hyn. Cytunwyd i gynnal cyfarfod pan ddaw'r eglurhad, a chytunwyd ymhellach i beidio a chyhoeddi'r Adroddiad ar y wefan hyd nes y bydd y mater wedi ei setlo.

9. **Materion Cyllid:**

    **i.** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.

    **ii.** Ystyriwyd derbyniadau'r mis a chytunwyd i dalu'r Cytundebau, sef Glanhau a Clerc.

    **iii.** EITEM MEWNOL: Ystyriwyd tendrau 3 mlynedd ar gyfer

        **i.** Glanhau 3 lloches un waith y mis – un cais ddaeth i law, gan Ali Roodbar ac fe'i dderbyniwyd.

ii. Cynnal a chadw'r Domen - un cais ddaeth i law, gan Gwilym Prys Edwards ac fe'i dderbyniwyd.

*10.* **Materion Cynllunio** Cymeradwywyd:

i. **NP5/53/600** Adeiladu estyniad cefn unllawr gyda tho brîg deuol o lechi a tho fflat,8 Llain Deg, Bala. LL23 7EQ

ii. **NP5/53/498C** Diwygiad ansylweddol i Ganiatâd Cynllunio NP5/53/498A dyddiedig 24/06/2020 i osod golau allanol ar yr eiddo, 1 - 9 Dôl Tryweryn, Y Bala.

**11. Gohebiaeth:** *:*

- **i.** Cyngor Gwynedd: mae'r Cynghorydd wedi derbyn gwybodaeth am y Tîm Tacluso; mae angen glanhau baw adar o'r pafin.
- **ii.** Ymgynghoriad ar 20 m.y.a. Cytunwyd i ymateb trwy ddweud fod y Cyngor yn croesawu'r cynllun.
- **iii.** Mabon ab Gwynfor: Damweiniau wrth Ysgol Godre'r Berwyn – diolchwyd am ei lythyr i Gyngor Gwynedd.
- **iv.** Cyfoeth Naturiol Cymru: nodwyd y cyfle i ymateb i Adolygiad Datganiad Ardal.
- **v.** Llywodraeth Cymru: nodwyd Arweiniad ar Iechyd Digidol Cynghorau.
- **vi.** Llywodraeth Cymru Adolygiad ar Fframwaith Moesegol Llywodraeth leol – nodwyd crynodeb y Clerc.
- **vii.** Parc Cenedlaethol Eryri: Ymgynghoriad ar ddrafft Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri (erbyn 12/5/23) polisi.cynllunio@eryri.llyw.cymru
  Cynigodd y Clerc i geisio dewis pethau perthnasol i'r Bala o gyfarfod Llanuwchllyn, a rhoi gwybod i'r Cynghorwyr; yn y cyfamser anogwyd aelodau i ddarllen y dogfennau erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

**12. Cwmni Pum Plwy Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a soniwyd am grant ychwanegol i gyflogi person i helpu'r ieuenctid a'r henoed.
Canolfan Tegid – cytunwyd gyda'r bwriad i ddiddymu'r elusen a ffurfiwyd yn 1994.

13. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref**

- i. Biniau ar y llwybr newydd - sylwyd ar nifer o sylwadau anghywir ar y cyfryngau cymdeithasol am y biniau. Mae trafodaethau wedi bod gyda Cyngor Gwynedd am eu lleoliad ac mae'r Cyngor wedi nodi lleoliadau dymunol ar fap i'r Swyddog Gorfodaeth Stryd. Mae union y nifer o biniau ag yr oedd cynt ar y llwybrau.
- ii. Arwynebedd yr A494 o flaen y Co-op – cytunwyd i anfon at NMWTRA i fynegi pryder.

*Cyfarfod nesaf: 4/5/23, yn cynnwys y cyfarfod blynyddol*

*Amser gorffen: 9.00pm*



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)